



Bwletin 3

**Adrodd ar Berfformiad Ysgolion**

24/05/17

Mae Llywodraeth Cymru yn darparu'r wybodaeth ddiweddaraf i Awdurdodau Lleol a Chonsortia ynghylch adrodd ar berfformiad ysgolion drwy'r bwletin hwn. Byddwn yn defnyddio'r bwletin i sicrhau eich bod yn cael gwybod am unrhyw benderfyniadau sy'n effeithio ar bolisiau adrodd ar berfformiad, ac i egluro unrhyw faterion cymhleth. A fydddech cystal â rhannu'r wybodaeth hon â'ch ysgolion fel y bo'n briodol?

**1 Y Flwyddyn Ddyfarnu/Y Flwyddyn Adrodd – gwerth cymwysterau**

Rydym yn deall bod peth dryswch wedi bod ynghylch mesurau perfformiad Cyfnod Allweddol 4, yn enwedig lle y mae gwerth cymwysterau wedi newid o ran sut y maent yn cyfrannu tuag at fesurau.

Er mwyn sicrhau nad oes unrhyw un o dan anfantais, bydd Llywodraeth Cymru yn derbyn y gwerthoedd hynny a oedd ynghlwm wrth y cymhwyster y flwyddyn y'i dyfarnwyd i'r dysgwr, ac nid y gwerthoedd a oedd ynghlwm wrtho yn y flwyddyn adrodd.

Pan fo cyfwerthedd TGAU wedi cael ei leihau ar gyfer 2017, oherwydd bod newid wedi digwydd yn y paramedrau ar gyfer Oriau Dysgu o dan Arweiniad (GLH) sy'n pennu'r cyfwerthedd, bydd unrhyw ddyfarniad a enillwyd mewn blwyddyn gynharach gan ddysgwr sydd ym mlwyddyn 11 ar hyn o bryd yn cyfrannu'r gwerth hanesyddol at ddiben cyfrifo mesurau. Bydd pob dyfarniad arall yn yr un gyfres o gymwysterau a enillwyd ym mlwyddyn adrodd 2017 yn cyfrannu'r gwerth llai sydd wedi cael ei ddiweddarau.

Bydd cymwysterau Sgiliau Hanfodol Cymru/Sgiliau Allweddol Ehangach yn dal i gyfrif ar gyfer carfan blwyddyn 11 lle yr enillwyd y cymwysterau hyn gan ddysgwr mewn blwyddyn gynharach, ond ni fyddant yn cyfrannu unrhyw werth o ran mesurau CA4 os ydynt wedi'u dyfarnu ym mlwyddyn adrodd 2017 neu'n hwyrach.

Bydd ceisiadau cynnar yn parhau i gyfrif unwaith y bydd y dysgwr yn y garfan blwyddyn 11 sy'n cael ei mesur, hyd yn oed pan fo'r dyddiad ar gyfer ardystio wedi mynd heibio.

Caiff y newidiadau o ran y mesurau perfformiad eu gweithredu o hyd yn y flwyddyn adrodd ar gyfer pob dysgwr a phob cymhwyster; caiff y Sgôr Pwyntiau wedi'i Chapio ddiwygiedig (y 'Capped 9') a'r cap o 40% ar gyfraniad cymwysterau nad ydynt yn TGAU at fesurau trothwy eu gweithredu o hyd o 2017 ymlaen.

## **2 Gofynion llythrennedd a rhifedd wrth fesur perfformiad**

Mae angen defnyddio fersiynau newydd y manylebau ar gyfer elfennau'r mesurau sy'n benodol i lythrennedd a rhifedd, hy manylebau Cymraeg Iaith neu Saesneg Iaith (nid Llenyddiaeth Gymraeg na Llenyddiaeth Saesneg), Mathemateg – Rhifedd a Mathemateg ym mlwyddyn adrodd 2017 ac yn y blynyddoedd i ddod, ni waeth beth fo'r flwyddyn pan enillwyd y dyfarniad.

## **3 TGAU Mathemateg newydd mewn mesurau perfformiad**

Caiff pob dysgwr blwyddyn 11 eu cynnwys wrth gyfrifo mesurau perfformiad ar gyfer y TGAU Mathemateg a Mathemateg – Rhifedd newydd o 2017, yn yr un ffordd ag y caiff pob dysgwr eu cynnwys yn y garfan ar gyfer Saesneg.

## **4 Cyfrifo'r 'Capped 9' mewn systemau ysgolion**

Ni all Llywodraeth Cymru ddarparu manyleb ar hyn o bryd ynghylch cyfrifo'r Sgôr Pwyntiau wedi'i Chapio ddiwygiedig (y 'Capped 9'). Ni ddisgwylir i gyflenwyr meddalwedd ar gyfer ysgolion gynnwys y cyfleuster hwn yn eu systemau – ac nid oes bai ar y cyflenwr am hyn.

## **5 Codau disgownt newydd ar gyfer TGAU Mathemateg**

Mae'r codau disgownt ar gyfer y TGAU Mathemateg a Mathemateg – Rhifedd newydd wedi cael eu pennu ac mae QiW wedi cael ei diweddarau gyda'r codau perthnasol isod:

- 2391 Mathemateg
- 2392 Mathemateg – Rhifedd

## **6 Polisi disgyblion o system addysg yng Nghymru neu Loegr (FEWBES)**

Bydd disgwyl i ddisgyblion sy'n cyrraedd o Loegr gyda 9-1 TGAU mewn Saesneg neu Fathemateg ar ddechrau Blwyddyn 11 gwblhau hefyd gymwysterau TGAU manyleb newydd Cymru mewn Cymraeg/Saesneg a Mathemateg a Mathemateg – Rhifedd. Fodd bynnag, os byddant yn cyrraedd ran o'r ffordd drwy Flwyddyn 11, gellir eu nodi fel disgyblion FEWBES a'u heithrio o fesurau perfformiad yr ysgol.

## **7 Gofynion Pennu Targedau ar gyfer y tair blwyddyn academiaidd sy'n dechrau ym mis Medi 2017**

### **a) Cyfnodau Allweddol 2 a 3**

Mae'n ofynnol i ysgolion osod targedau rhagnodedig i ddisgyblion sy'n cyflawni Lefel 4 neu'n uwch a Lefel 5, ar gyfer Cyfnodau Allweddol 2 a 3 mewn Cymraeg, Saesneg, Mathemateg a Gwyddoniaeth.

### **b) Cyfnod Allweddol 4**

O 2017 ymlaen, bydd rhaid i ysgolion barhau i osod targedau rhagnodedig ar gyfer cyflawni yn erbyn y Trothwy Lefel 2, gan gynnwys Cymraeg/Saesneg a Mathemateg (trothwy Lefel 2 cynhwysol), yn ogystal â'r Trothwy Lefel 1. Nid yw'n ofynnol, bellach, i ysgolion osod targedau Cyfnod Allweddol 4 mewn perthynas â'r Dangosydd Pynciau Craidd, neu ar gyfer y rheini sy'n gadael yr ysgol heb gymwysterau.

Mae'n ofynnol i ysgolion osod o leiaf tri tharged lleol o hyd ar gyfer pob un o Gyfnodau Allweddol 2, 3 a 4 sy'n adlewyrchu'r blaenoriaethau a nodwyd drwy hunanwerthuso, ystyried setiau data craidd a gwybodaeth gymharol arall. Hefyd, dylai'r targedau adlewyrchu blaenoriaethau cenedlaethol fel y maent yn gymwys mewn perthynas ag ysgolion unigol.

Rydym wrthi'n ystyried goblygiadau'r gwaith o ddiwygio'r cwricwlwm a'r trefniadau asesu. Hyd nes y bydd y broses hon wedi'i chwblhau, byddwn yn parhau â'r gofynion presennol o ran gosod targedau.

Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i ddarparu data trothwy Lefel 2 cynhwysol a Lefel 1 (yn ogystal ag unrhyw fesurau data newydd), hyd nes y byddwn wedi trosglwyddo'n llawn i fesurau newydd.

## **8 Aseidiadau Athrawon ar Ddiwedd y Cyfnod Sylfaen a Chyfnodau Allweddol**

Mae pryderon wedi'u codi ynghylch y system asesu bresennol lle gall ysgolion adrodd bod plentyn yn gweithio mewn grŵp blwyddyn o fewn y Cwricwlwm Cenedlaethol sy'n is na'i oed cronolegol er mwyn eithrio eu canlyniadau o Gasgliadau Data Cenedlaethol diwedd y cyfnod.

Lle penderfynir mai dyna sydd orau i'r plentyn, gall penaethiaid, yn ôl eu disgrisiwn proffesiynol, osod plentyn mewn grŵp blwyddyn o fewn y Cwricwlwm Cenedlaethol sy'n wahanol i'w oed cronolegol. Gall hyn ddigwydd pan fydd disgybl wedi cael cyfnod yn yr ysbyty neu pan fydd wedi cael problemau emosiynol difrifol dros dro (efallai oherwydd argyfwng teuluol).

Fodd bynnag, mae'r trefniadau asesu statudol yn nodi bod yn rhaid i ddysgwyr gael eu hasesu gan athro unwaith yn ystod pob cyfnod allweddol. Mae'r canllawiau statudol hefyd yn ei gwneud yn glir, lle bydd dysgwyr yn symud i raglenni astudio'r cyfnod allweddol nesaf y flwyddyn ganlynol, yr ystyrir eu bod ym mlwyddyn olaf y cyfnod allweddol perthnasol, ac felly bod yn rhaid eu hasesu drwy aseiad athro ac i'w canlyniadau gael eu cynnwys yn y Casgliad Data Cenedlaethol.

Mae swyddogion yng Nghyfarwyddiaeth Ystadegol Llywodraeth Cymru yn ymwybodol o'r broblem a byddant yn monitro ffurflenni'r Casgliad Data Cenedlaethol gan eu cymharu â data'r Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion i sicrhau eu bod yn gyson. Caiff unrhyw anghysondebau yn y data eu nodi ac ymchwilir iddynt yn llawn.

## **9 Newidiadau i Oriau Dysgu dan Arweiniad ar QiW**

Mae Sefydliadau Dyfarnu wedi bod yn cydweithio â'r rheoleiddwyr Cymwysterau Cymru fel rhan o ymarfer glanhau data i ddiweddarau'r oriau dysgu dan arweiniad ar QiW lle bo'n briodol. Dim ond yn achos ychydig iawn o gymwysterau y bydd hyn yn lleihau'r pwyntiau perfformiad a'r trothwyon. Fodd bynnag, dim ond i gymwysterau a ddyfernir yn 2018-19 y bydd y newidiadau hyn yn berthnasol, ac felly ni fydd yr wybodaeth am berfformiad yn newid tan hynny.

Yn yr atodiad i'r bwletin hwn, ceir rhestr o'r cymwysterau lle bydd yna gynnydd/gostyngiad yn y gwerthoedd mesur perfformiad yn sgil addasiadau sefydliadau dyfarnu i oriau dysgu dan arweiniad. Dylech nodi, lle mae cymhwyster wedi cynyddu ei oriau dysgu dan

arweiniad, fod y cynnydd cysylltiedig yn y gwerthoedd mesur perfformiad yn effeithiol ar unwaith ac wedi'i adlewyrchu ar QiW (gweler [qiw.cymru](http://qiw.cymru)).

**10 QiW – y gronfa ddata ar-lein ar gyfer pob cymhwyster sydd wedi'i gymeradwyo/wedi'i ddynodi yng Nghymru**

Mae Llywodraeth Cymru wedi gweithio mewn partneriaeth â Chymwysterau Cymru i gynnwys gwybodaeth mesur perfformiad gysylltiedig ar gyfer cymwysterau yn QiW, ac maent wedi ymgymryd ag ymarferion gwahanol i lanhau data, er mwyn ei gwneud yn fwy effeithlon. Dylech gyfeirio at QiW i gael yr holl wybodaeth am fesurau perfformiad, ac i sicrhau eich bod yn derbyn yr wybodaeth gywir am berfformiad yng Nghymru, sydd wedi'i chyhoeddi gan Lywodraeth Cymru. Mae pob cymhwyster sydd wedi'i gymeradwyo/wedi'i ddynodi ar gyfer cael ei ddarparu yng Nghymru yn ymddangos ar QiW, a bydd yn cyfrannu at y mesurau perfformiad o dan yr un amodau.

**Os oes gennych ragor o gwestiynau ynghylch adrodd ar berfformiad ysgolion, mae croeso i chi e-bostio [ims@cymru.gsi.gov.uk](mailto:ims@cymru.gsi.gov.uk)**

**Atodiad – Cymwysterau lle newidiwyd yr Oriau Dysgu Dan Arweiniad:**

Gwelwyd cynnydd/gostyngiad yn Oriau Dysgu Dan Arweiniad y cymwysterau canlynol:

<b>Rhif y Cymhwyster</b>	<b>Teitl y Cymhwyster</b>	<b>Yr Oriau Dysgu Dan Arweiniad blaenorol</b>	<b>Yr Oriau Dysgu Dan Arweiniad newydd</b>
500/3476/5	Tystysgrif Lefel 3 City & Guilds mewn Systemau ac Egwyddorion TGCh	160	95
500/4992/6	Dyfarniad Lefel 1 BTEC Pearson mewn Gweinyddu Busnes	60	50
500/5525/2	Dyfarniad Lefel Mynediad BTEC Pearson mewn Gweinyddu Busnes (Mynediad 3)	60	50
500/7339/4	Dyfarniad Lefel 2 BTEC Pearson mewn Gwybodaeth am Fanwerthu	67	30
500/9150/5	Diploma Lefel 3 BTEC Pearson mewn TG	775	720
501/0075/0	Tystysgrif Lefel 1 BTEC Pearson mewn Gwyddoniaeth Gymhwysol	110	130
501/0193/6	Diploma Lefel 3 BTEC Pearson mewn Egwyddorion Cynnal a Chadw ac Atgyweirio Cerbydau Ysgafn	627	438
501/0248/5	Diploma Lefel 3 Edexcel Pearson mewn Cymhwysedd Cynnal a Chadw ac Atgyweirio Cerbydau Ysgafn	680	528
501/0277/1	Diploma Lefel 3 City & Guilds mewn Systemau ac Egwyddorion TGCh ar gyfer Gweithwyr TG Proffesiynol	452	315
501/1585/6	Diploma Lefel 3 City & Guilds mewn Cymorth Systemau TGCh	514	489
600/7354/8	Diploma NVQ Lefel 2 Cskills Awards mewn Systemau Mewnol (Adeiladu)	180	134
600/8697/X	Diploma Lefel 3 SFEDI Awards mewn Gweithgynhyrchu a Chynhyrchu	420	390
601/2115/4	Tystysgrif Lefel 2 Agored Cymru mewn Addysg Bersonol a Chymdeithasol	137	146
601/3630/3	Dyfarniad Estynedig Lefel 1 City & Guilds mewn Sgiliau Cyflogadwyedd	74	49
601/3641/8	Tystysgrif Lefel Mynediad City & Guilds mewn Sgiliau Cyflogadwyedd (Mynediad 3)	121	93
601/3643/1	Tystysgrif Lefel 1 City & Guilds mewn Sgiliau Cyflogadwyedd	113	77